# Cofnodion Grŵp Cynghorwyr Craffu Rhanbarthol Partneriaeth

**a Gynhaliwyd o Bell trwy MS Teams**

**Ddydd Llun 13 Chwefror 2023 am 10.00 am**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd L R Jones (Cadeirydd) yn Llywyddu

**Cynghorwyr**

Y Cyng. Lyndon Jones (Cynullydd Panel Craffu ar Berfformiad Addysg Abertawe)
Y Cyng. Peter Black (Cadeirydd Pwyllgor Rhaglen Graffu Abertawe)
Y Cyng. Huw Murphy (Cadeirydd Pwyllgor Craffu ar Ysgolion a Dysgu Sir Benfro)
Y Cyng. Pat Davies (Is-gadeirydd Pwyllgor Craffu ar Ysgolion a Dysgu Sir Benfro)
Y Cyng. Sue Allen (Is-gadeirydd Pwyllgor Craffu ar Addysg a Phlant Sir Gaerfyrddin)

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Ian Altman | Swyddog Arweiniol Partneriaeth |
| Helen Morgan-Rees | Cyfarwyddwr Arweiniol a Chyfarwyddwr Addysg yn Abertawe |
| Cressy Morgan | Ymgynghorydd Strategol Partneriaeth |
| Michelle Roberts | Swyddog Craffu (Abertawe) |

**Ymddiheuriadau am Absenoldeb**
Y Cyng. Carys Jones (Cadeirydd Pwyllgor Craffu ar Addysg a Phlant Sir Gaerfyrddin)

---

## 9 Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Y Cyng. Carys Jones (Cadeirydd Pwyllgor Craffu ar Addysg a Phlant Sir Gaerfyrddin)

## 10 Datganiad o Fuddiant

Ni chafwyd yr un datganiad o fuddiant.

## 11 Cofnodion a Llythyr(au) yn deillio o'r cyfarfod diwethaf

Derbyniwyd y cofnodion a’r llythyr a oedd yn deillio o’r cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Hydref 2022.

## 12 Amlinelliad o Agenda Cyd-bwyllgor Partneriaeth a gynhaliwyd ar 3 Chwefror 2023, ac unrhyw Adborth

Rhoddodd Ian Altman ddiweddariad i'r Grŵp Cynghorwyr ar ganlyniadau cyfarfod Cyd-bwyllgor Partneriaeth a gynhaliwyd ar 3 Chwefror 2023. Nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Penodwyd Martin Nicholls, Prif Weithredwr yn Abertawe yn Brif Weithredwr Arweiniol ar gyfer Partneriaeth.
- Penodwyd Helen Morgan-Rees, Cyfarwyddwr Addysg yn Abertawe yn Gyfarwyddwr Arweiniol ar gyfer Partneriaeth.
- Roedd y Cynghorydd Lyndon Jones yn bresennol yn rôl Cadeirydd y Grŵp Cynghorwyr Craffu a siaradodd am lythyr y Grŵp Cynghorwyr a oedd yn deilio o’r cyfarfod ar 24 Hydref 2022.
- Cyflwynodd Swyddog Adran 151 adroddiad ariannol Partneriaeth ar gyfer 2022-23. Roedd hwn yn rhoi diweddariad ar sefyllfa ariannol Partneriaeth ddiwedd mis Rhagfyr 2022, a nodwyd ei fod yn rhoi gwybodaeth am gytundebau lefel gwasanaeth â’r awdurdodau lleol. Cafodd yr adroddiad ariannol ei nodi, a chymeradwywyd y gyllideb ddiwygiedig a'r incwm a dyraniad grant ar gyfer 2022-23.
- Darparwyd trosolwg o raglen waith yr archwiliad mewnol ar gyfer 2022-23, a rhoddodd y Cyd-bwyllgor ystyriaeth i'r amcanion, y cwmpas, y dull gweithredu a'r trefniadau adrodd. Nodwyd y cynnydd a wnaed. Byddai rhagor o waith yn cael ei gyflawni rhwng misoedd Mawrth a Mai 2023 ac, yn dilyn hynny, byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyd-bwyllgor yn ystod tymor yr haf.
- Darparwyd trosolwg a oedd yn cyflwyno'r cynnydd o ran y cynllun busnes, y broses o'i gyflawni, a meysydd i’w datblygu o hyd.
- Eglurwyd y byddai dogfen werthuso fanwl yn cael ei pharatoi a fyddai'n cynnwys effaith y gwaith a wnaed hyd hynny.
- Cryfhawyd un elfen o'r asesiad risg.

## 13 Materion Ariannol a threfniadau Rheoli Risgiau a Llywodraethu y Cyd-bwyllgor

- Yn unol â chais, rhoddodd Helen Morgan-Rees ddiweddariad i'r Grŵp Cynghorwyr ar y trefniadau ariannol a llywodraethu, ac, fel y nodid yn y Cytundeb Cyfreithiol, roedd y Grŵp Cynghorwyr i adolygu, asesu a chraffu ar drefniadau'r Cyd-bwyllgor o ran rheoli risgiau, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol, ac adolygu ac asesu pa mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol oedd y defnydd a wnaed o adnoddau.
- Rhoddodd ddiweddariad i'r panel ar y trefniadau ariannu ar gyfer Partneriaeth, gan gynnwys cyfraniad pob awdurdod lleol a hefyd y cyllid grant a ddaeth i law gan Lywodraeth Cymru, ynghyd â Chytundebau Lefel Gwasanaeth. Eglurodd fod adroddiad ar yr effaith yn cael ei lunio, a fyddai'n cael ei roi gerbron y Cyd-bwyllgor ym mis Mehefin, ac y byddai'n amlinellu'r elfen gwerth am arian. Adroddwyd ei bod yn bwysig i'r gwasanaeth gael ei deilwra i anghenion pob awdurdod lleol, a bod ymgysylltiad llawn y tri awdurdod lleol hefyd yn allweddol er mwyn iddynt oll gael gwerth am arian gan Partneriaeth.

- Nodwyd bod y trefniadau llywodraethu yn mynd rhagddynt fel y cytunwyd arnynt yn y Cydgytundeb, gan gynnwys y Cyd-bwyllgor tymhorol, y Grŵp Cynghorwyr Craffu, a chyfarfodydd rheolaidd y grwpiau rhanddeiliaid.

Holodd y Grŵp Cynghorwyr ynghylch y canlynol:

- Sicrhau bod cyn lleied â phosibl o ddyblygu yn digwydd o ran yr hyn a wneid gan Partneriaeth a’r hyn yr oedd yr awdurdodau lleol a'r ysgolion yn ei wneud. Clywodd y Cynghorwyr fod hon yn elfen yr oedd pawb dan sylw yn ymwybodol iawn ohoni, a'u bod yn ymrwymedig i sicrhau na fyddai'n digwydd lle bynnag y byddai hynny'n bosibl. Clywsant fod y grwpiau athrawon yn bwynt cyfeirio defnyddiol o ran cynnal y sgyrsiau hynny a sicrhau bod yna eglurder yn bodoli o ran pwy a oedd yn darparu beth.
- Y posibilrwydd i staff Partneriaeth weithio mewn swyddfeydd awdurdodau lleol. Eglurodd Ian Altman ei bod yn bwysig iawn cael canolfan lle y gallai'r holl staff ddod ynghyd a chael cyfle i gydweithio. Dywedodd na fyddai am weld y timau'n rhannu, ac felly bod cael canolfan ddynodedig yn bwysig iawn. Eglurodd mai dim ond ystafell desgiau poeth, gofod gweinyddu ac un neu ddwy o ystafelloedd cyfarfod a oedd ganddynt ar y pryd, nad oedd yn ôl troed enfawr.

## 14 Y Proffil Risgiau Diweddaraf

Dywedodd Ian Altman wrth y Grŵp Cynghorwyr mai dim ond un newid a oedd wedi'i wneud i'r ddogfen a welwyd yn flaenorol gan y Grŵp. Roedd y newid hwn yn ymwneud â chryfhau'r sylw ynghylch y risg gynyddol mewn perthynas â Blaenoriaeth 1, a'r ffaith nad oedd ysgolion yn cael cymorth digonol i roi'r cwricwlwm ar waith.

Holodd y Grŵp Cynghorwyr ynghylch y canlynol:

- Yr eitem ar y gofrestr risgiau ynglŷn â chyllid Llywodraeth Cymru ddim yn cyrraedd mewn pryd, a chymaint yr oeddid yn dibynnu arno. Clywodd y Grŵp fod hon yn risg fawr gan fod y mwyafrif helaeth yn y sefydliad yn dibynnu ar y lefelau hynny o arian grant. Roedd Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnal y llinellau grant hyn am dros dair blynedd. Fodd bynnag, roedd yr arian yn tueddu i gyrraedd mewn pryd.
- Beth oedd y risgiau o ran y cwricwlwm newydd, a sut yr oedd cynnig Llywodraeth Cymru i athrawon mewn perthynas â thâl llwyth gwaith yn effeithio ar y gwaith hwn? Dywedodd Ian Altman y byddai dysgu proffesiynol yn cael ei ystyried yn elfen a oedd yn ychwanegu gwerth at y system yn hytrach na rhywbeth a oedd yn amharu ar y llwyth gwaith. Lle bynnag yr oedd modd, dywedodd Ian Altman fod Partneriaeth yn ceisio sicrhau bod pethau ar gael yn anghydamserol fel y gallai staff ddewis o amrywiaeth o amseroedd, ac nad oedd yna ddisgwyliad chwaith i'r gwaith gael ei gyflawni y tu allan i oriau craidd. Fodd bynnag, o ran y llwyth gwaith, dywedodd Ian Altman fod yna ddisgwyliadau sylweddol ar staff. Dywedodd mai mater i Partneriaeth, yn ei farn ef, oedd gwneud y cynnig dysgu proffesiynol mor hyblyg â phosibl.
- Effeithiolrwydd cynnal sesiynau datblygiad proffesiynol ar y cwricwlwm mewn clystyrau, a'i obaith y byddai'r cyllid i ysgolion ryddhau staff i fynychu yn parhau.

## 15 Edrych ar Berfformiad Blaenoriaeth 1 Partneriaeth – Cwricwlwm ac Asesu

Yn rhan o'i raglen waith, cytunodd y Grŵp Cynghorwyr i edrych ar berfformiad un flaenoriaeth wahanol o blith chwe blaenoriaeth Partneriaeth ym mhob cyfarfod. Felly, rhoddodd y Grŵp Cynghorwyr groeso i Ian Altman a Cressy Morgan, Ymgynghorydd Strategol Partneriaeth, i'r cyfarfod. Rhoddodd y Grŵp gyflwyniad ac amlinelliad o'r cynnydd o ran Blaenoriaeth 1: Cwricwlwm ac Asesu – Cefnogi cwricwlwm cenedlaethol sydd â thegwch a rhagoriaeth yn greiddiol iddo ac sy'n gosod safonau uchel i bob dysgwr. Aeth y Grŵp ati i ymdrin â'r pwyntiau canlynol:

- Y Cynllun Busnes
- Argaeledd gwybodaeth ar wefan Partneriaeth
- Y Cynnig Dysgu Proffesiynol
- Y modd yr oedd clystyrau gwahanol yn wynebu heriau gwahanol, ac felly na fyddai'r un peth yn addas i bawb, a phwysigrwydd mabwysiadu agwedd hyblyg ac ystwyth wrth ddarparu cymorth i bob clwstwr
- Roedd cymysgedd o gymorth cyffredinol a phwrpasol i'w weld yn effeithiol
- Rhoddwyd tair enghraifft o waith gweithio mewn clwstwr.

Mynegodd y Grŵp Cynghorwyr y pwyntiau a ganlyn:

- Natur ragnodol yr hen gwricwlwm, a'r sgiliau a oedd yn ofynnol ar gyfer y cwricwlwm newydd. Teimlai'r Grŵp Cynghorwyr ei bod yn bwysig mynd â holl staff yr ysgolion gyda Partneriaeth ar y daith i gyflwyno Cwricwlwm i Gymru, ac, er mwyn sicrhau na fyddai unrhyw un yn cael ei adael ar ôl, dylai Partneriaeth ofalu bod cymorth yn cael ei roi i'r rhai a allai fod yn cael trafferth o ran y pontio.

## 16 Rhaglen Waith Craffu Partneriaeth

Nodwyd y Rhaglen Waith Craffu.

## 17 Trafod y pwyntiau ar gyfer y llythyr at Gadeirydd Cyd-bwyllgor Partneriaeth a fyddai'n deillio o'r cyfarfod hwn

Cytunodd aelodau'r Grŵp Cynghorwyr i fynegi eu barn o ran y canlynol er mwyn iddi gael ei chynnwys yn eu llythyr at Gadeirydd Cyd-bwyllgor Partneriaeth:

- Bod aelodau'r Grŵp yn falch o weld bod yr adroddiad effaith cyntaf ar gyfer Partneriaeth wrthi'n cael ei lunio, a'u bod yn edrych ymlaen at ei weld ym mis Mehefin.
- Bod pryder wedi cael ei fynegi ynghylch canlyniad dyfarniad tâl llwyth gwaith Llywodraeth Cymru a'i effaith ar amser addysgu. Deallai'r Grŵp nad oedd gan Partneriaeth unrhyw fanylion ar y pryd ond y byddai'n falch o roi diweddariad i'r Cynghorwyr wrth i'r mater fynd rhagddo.
- Y tynnwyd sylw at y risg na fyddai cyllid grant Llywodraeth Cymru yn cyrraedd mewn pryd, a pha mor ddibynnol yr oedd Partneriaeth ar y llif arian hwn.
- Bod y Grŵp Cynghorwyr am gydnabod a diolch i Partneriaeth am ei waith caled yn datblygu ethos gwaith tîm gyda'r ysgolion mewn perthynas â chyflwyno'r cwricwlwm newydd.

- Bod y Grŵp Cynghorwyr hefyd am bwysleisio pwysigrwydd mynd â phob athro ar hyd y daith i roi Cwricwlwm i Gymru ar waith.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.40 am

**Cadeirydd**